



Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
2019 - 2020

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn fformatau eraill.
Er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol.**

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon yn Saesneg.
Fe welwch fersiwn Saesneg ar ein gwefan.**

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.....	3
Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol.....	5
Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb	6
Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol	36
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	36
Hyfforddiant Cydraddoldeb	37
Caffael	37
Cynllun Hyderus o ran Anabledd	39
Pencampwr Amrywiaeth Stonewall.....	40
Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth	42
Fforwm Adrodd a System Adrodd Sipsiwn a Theithwyr.....	43
Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (Cyngor ar Awtistiaeth i Oedolion gynt)	44
Fforwm Strategaeth 50+ y Fro	45
Datblygu'r Celfyddydau.....	48
Gwasanaethau Hamdden	54
Gwasanaethau Etholiadol	62
Rhaglen Dysgu Cymraeg yn y Fro	63
Gwerthuso Swyddi.....	66
Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 8.....	66
Y Cynllun Gweithlu (2016 - 2020)	67
Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a chyflog.....	68
I gael rhagor o wybodaeth	78

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ni adrodd ar y cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a materion cydraddoldeb eraill bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth ar gyfer perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am ein gwaith cydraddoldeb rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020.

Rydym yn gwneud hyn er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (a elwir y 'ddyletswydd gyffredinol'); a
- y dyletswyddau penodol i Gymru.

Rydym yn dweud wrthyich sut rydym wedi casglu a defnyddio gwybodaeth i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- datblygu cydraddoldeb cyfle; a
- maethu cysylltiadau da.

Rydym hefyd yn dweud wrthyich am:

- sut rydym yn dod ymlaen gyda'n hamcanion cydraddoldeb;
- y bobl a gyflogwn; a
- gwaith cydraddoldeb arall.

Cefndir

Rydym wedi disgrifio ein prif waith cydraddoldeb yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 - 2020](#).

Cytunwyd ar y cynllun hwn ym mis Mawrth 2016. Mae'n seiliedig ar ein cynllun gwreiddiol o 2012. Roedd nifer o bethau roedd yn rhaid i ni wneud i ddatblygu'r cynllun cyntaf. Rydym yn rhestru'r prif gamau isod.

- Fe edrychom ni ar faint o wybodaeth yr oedd gennym ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Roedden ni eisiau gwybod pa grwpiau gwarchoddedig oedd yn defnyddio ein gwasanaethau.
- Fe wnaethon ni gwrdd â sefydliadau lleol i weld a oedd meysydd y gallen ni weithio arnyn nhw gyda'n gilydd.
- Fe edrychom ni ar gynlluniau eraill i weld os oedd ganddyn nhw gamau oedd angen bod yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y rhain yn cynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Fe drefnom ni ddigwyddiadau i ni gwrdd â sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn anghenion y grwpiau gwarchoddedig. Fe aethon ni i'w cyfarfodydd nhw os nad oedden nhw'n gallu dod i'n rhai ni.
- Fe ymgynghoron ni â'r cyhoedd, staff ac undebau masnach.
- Fe siaradon ni â phobl ynglyn â'r hyn y dylen ni ei flaenoriaethu.

Fe wnaeth hyn ein helpu i benderfynu ar ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Fe wnaethon ni ymgynghori â phobl eto tua diwedd 2015 i'n helpu ni i benderfynu sut i ddiweddarau'r cynllun. Y brif neges oedd parhau i weithio ar y meysydd yr ydym eisoes yn gweithio arnynt. Rydym wedi datblygu'r rhain gan ddefnyddio ymchwil mwy diweddar megis 'Is Wales Fairer' gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym hefyd wedi gwneud cysylltiadau gyda'n Cynllun Corfforaethol.

I sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb, fe wnaethon ni roi camau mewn cynlluniau gwasanaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn arwain gwaith pob gwasanaeth (megis Gwasanaethau Tai, Gweladwy a Chymdeithasol). Mae'n rhaid i bob gwasanaeth fonitro cynnydd gyda'r camau hyn ac adrodd ar hyn.

Mae Arweinydd y Cyngor yn arwain ar faterion cydraddoldeb. Mae cyfarwyddwyr yn arwain ar eu gwasanaeth eu hunain.

Rydym yn cael gwybodaeth am y materion a'r canllawiau diweddaraf mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy'r rhwydwaith Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am bwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau am beth amser. Nid ydym bob amser wedi gwneud hyn yn yr un ffordd ar draws y Cyngor. Hefyd, nid ydym wedi casglu data ar yr holl grwpiau gwarchoddedig.

Am y rheswm hwn, yn 2011, fe ddyfeision ni ffurf newydd gan siarad â rheolwyr i esbonio pa mor bwysig yw ei ddefnyddio. Fe wnaethon ni annog gwasanaethau i wella sut maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gynllunio eu gwaith i ddiwallu anghenion pobl yn well. Rydym yn parhau i wneud hyn.

Pan ddechreuon ni, fe edrychom ni ar wybodaeth gan wasanaethau allweddol:

- Llyfrgelloedd;
- Tai;
- Diogelu'r Cyhoedd;
- Budd-dal Tai; a
- Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn yr adroddiad eleni, rydym yn adrodd ar y gwasanaethau a ganlyn:

- Datrysiadau Tai
- Cefnogi Pobl
- Budd-daliadau Tai a Gostyngiad yn y Dreth Gyngor
- Refeniw a Budd-daliadau
- Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir
- Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Cyfathrebu
- Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles, Dysgu a Sgiliau
- Safonau a Darpariaeth, Dysgu a Sgiliau
- Tîm Mynediad a Threfniadaeth Ysgolion
- Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adfywio a Chynllunio – Parciau Gwledig, yr Arfordir Treftadaeth, y Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Caffael
- Cwynion Corfforaethol - Cysylltiadau Cwsmeriaid

Rydym fel arfer yn adrodd ar y Gwasanaeth Cofrestru. Nid yw'r gwasanaeth hwn wedi gallu adrodd eleni oherwydd anawsterau staffio a materion technegol gyda'i systemau cofnodi.

Pan rydym yn edrych ar y wybodaeth a gasglwyd, rydym yn ystyried:

- y data a gasglwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf;
- y systemau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data; a

- sut mae gwasanaethau'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud gwelliannau.

Mae hyn yn helpu rheolwyr i nodi bylchau yn y wybodaeth a chymryd camau priodol.

I egluro pam fod angen i reolwyr gasglu'r wybodaeth, rydym yn defnyddio canllawiau gan Stonewall. Gallwch weld y canllaw yn [Atodiad 1](#). Mae'r ffurflen a ddefnyddiom i gasglu'r wybodaeth yn [Atodiad 2](#).

Gallwch gael y wybodaeth cydraddoldeb y mae gwasanaethau wedi'i chasglu yn [Atodiad 4](#). Mae pob gwasanaeth yn dweud sut maen nhw wedi defnyddio'r wybodaeth i ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn annog gwasanaethau i ddangos sut maent wedi defnyddio'r wybodaeth i wneud gwelliannau i wasanaethau.

Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol

Mae rhai o'r rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth yn cynnwys:

- staff yn gofyn i ddefnyddwyr am wybodaeth bersonol wyneb yn wyneb;
- nad oedd defnyddwyr am gwblhau ffurflen arall yn ychwanegol i ffurflen gais hir;
- pryder nad yw arolygon cyfyngedig yn adlewyrchu darlun cywir;
- ddim gyda systemau i gasglu'r wybodaeth.

Rydym yn annog rheolwyr i egluro pa mor bwysig yw'r wybodaeth hon wrth wella gwasanaethau.

Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb

Dyma amlinelliad byr o sut rydym wedi datblygu ein hamcanion gwreiddiol. Gallwch gael manylion llawn hyn yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) cyntaf.

- Fe wnaethon ni ddefnyddio ymchwil genedlaethol i'n helpu i ddeall y materion. Er enghraifft, fe edrychon ni ar yr adroddiadau 'How Fair is Wales', a 'Not Just Another Statistic'. Y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb a gynhyrchodd yr adroddiadau hyn.
- Fe edrychon ni ar p'un a oedd gennym unrhyw wybodaeth yn y Cyngor i roi mwy o fanylion i ni.
- Fe siaradon ni â grwpiau ynghylch lles y grwpiau gwarchoddedig.
- Fe ymgynghoron ni â'n staff ein hunain a'r cyhoedd.
- Fe gytunon ni ar yr amcanion cydraddoldeb y bydden ni'n gweithio arnynt am y 4 blynedd nesaf.

I adolygu ein hamcanion, edrychon ni ar ymchwil mwy diweddar megis 'Is Wales Fairer' gan y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb. Fe wnaethon ni ymgysylltu ac ymgynghori hefyd.

Yn dilyn hyn, fe gytunon ni ar ein hamcanion cydraddoldeb. Rydym yn dangos pa waith rydyn ni wedi'i wneud ar y rhain isod.

Amcan Cydraddoldeb 1:

Casglu a dadansoddi data gwasanaeth fesul nodwedd warchoddedig er mwyn i wasanaethau fodloni anghenion amrywiol y cyhoedd

Beth rydym wedi'i wneud:

Rydyn ni wedi cynyddu nifer y gwasanaethau sy'n casglu a dadansoddi data yn ôl nodwedd warchoddedig. Ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, mae gennym ddata a gwybodaeth ar gyfer dau ar bymtheg o wahanol wasanaethau, sy'n welliant sylweddol ar ein man cychwyn o bum gwasanaeth.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Mae gwasanaethau yn edrych ar y wybodaeth hon i weld sut allan nhw wella gwasanaethau i bobl mewn grwpiau gwarchoddedig. Mae gwasanaethau hefyd yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon wrth feddwl am yr effaith ar gydraddoldeb wrth wneud newidiadau i'w gwasanaethau.

Beth yw'r heriau?

Gall fod amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar ba un a yw gwasanaethau'n casglu ac yn dadansoddi data ar nodweddion gwarchoddedig ei ddefnyddwyr gwasanaethau.

Weithiau nid oes gan wasanaethau'r systemau i gasglu gwybodaeth a gall hyn fod yn ddwys o ran adnoddau i'w ddatrys.

Gall staff fod yn amharod i ofyn i bobl am y math hwn o wybodaeth, er bod y wybodaeth hon yn gyfrinachol, yn enwedig pan fyddant yn teimlo bod y cwestiynau monitro yn personol iawn. Nid ydynt bob amser yn deall sut y gall gofyn cwestiynau o'r fath helpu i: ddatblygu gwasanaethau fel eu bod yn diwallu anghenion amrywiol; a chwalu'r rhwystrau i bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Pan fydd defnyddwyr gwasanaeth yn cwblhau ffurflenni i gael mynediad i wasanaeth, gallant fod yn amharod i lenwi ffurflen ychwanegol gyda mwy o wybodaeth. Unwaith eto, gall hyn atal Gwasanaethau rhag gofyn am wybodaeth am gydraddoldeb.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae angen i ni barhau i hyrwyddo i wasanaethau a'r cyhoedd y rhesymau pam rydym yn casglu'r wybodaeth hon a sut y gellir ei defnyddio er eu lles.

Mae angen i ni helpu gwasanaethau i ddadansoddi'r wybodaeth hon yn well a'i defnyddio i wneud gwelliannau ar gyfer grwpiau gwarchodedig.

Amcan Cydraddoldeb 2:

Cau bylchau cyrhaeddiad plant mewn grwpiau gwarchoddedig

Beth rydym wedi'i wneud:

Rydym yn canolbwyntio ar anghenion grwpiau penodol yr ydym yn nodi fel “dysgwyr sy'n agored i niwed”. Ystyr hyn yw dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu.

Rydym yn casglu data ar y dysgwyr hyn er mwyn mesur eu cynnydd yn yr ysgol. Rydym hefyd yn casglu data ar bresenoldeb a gwaharddiadau er mwyn gwirio lles dysgwyr. Rydym yn defnyddio'r data i adnabod grwpiau ac unigolion sydd angen rhagor o gymorth ac i weithio gyda staff yr ysgol i'w helpu nhw i gynorthwyo'r plant hyn yn well.

Rydym wedi canolbwyntio ar gyrhaeddiad y grwpiau canlynol: Disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr; plant sy'n derbyn gofal gan ein hawdurdod lleol; plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Er mwyn cwrdd â'r twf mewn plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, rydym wedi gwneud gwaith sylweddol ar ail-lunio darpariaeth yn unol â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a'r Cynllun Gweithredu Rhanbarthol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r holl ddatganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi'u cyhoeddi o fewn 26 wythnos. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi aros yn y chwarterel uchaf yng Nghymru.

Rydym wedi datblygu darpariaeth i ddiwallu anghenion cynyddol plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau emosiynol cymdeithasol ac iechyd meddwl. Rydym yn rhoi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sefydlu dull sy'n seiliedig ar drawma o ran diwallu'r angen.

Rydym wedi cyflwyno i'r Cabinet ein cynlluniau ar gyfer darpariaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth ac awtistiaeth. Rydym yn cynnal ymgynghoriad statudol i gael barn rhanddeiliaid er mwyn llywio'r ddarpariaeth hon.

Mae gennym ystod o ddarpariaeth allgymorth dda sy'n cynorthwyo ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion ym mhob maes anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u llinellau sylfaen. Rydym yn llwyddo i gefnogi ysgolion i ddatblygu darpariaeth yn yr ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae bron pob ysgol a gafodd ei harolygu ers 2017 wedi cyflawni gofal, cymorth ac arweiniad da neu ragorol, pan oedd Estyn wedi eu harolygu.

Mae'n sicr bod pwysau ar ysgolion i ddiwallu anghenion nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd â phroblemau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. Mae angen datblygu gwasanaethau a darpariaeth allgymorth ymhellach yn y maes hwn i gefnogi ysgolion i ddiwallu'r angen hwn.

Mae ein hysgol arbennig, Ysgol y Deri yn darparu profiad dysgu rhagorol ar gyfer disgyblion ADY yn y Fro ac mae'r deilliannau'n dda. Oherwydd y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, rydym wedi ehangu'r ddarpariaeth hon. Yn y dyfodol, bydd angen i ni greu mwy o gapasiti er mwyn diwallu'r angen a rhagwelir.

Mae gennym nifer o ganolfannau adnoddau arbenigol o ansawdd uchel. Rydym yn datblygu'r rhain fel canolfan ragoriaeth i ddarparu cymorth allgymorth ychwanegol i ysgolion. Mae bron pob disgybl sy'n mynychu'r canolfannau adnoddau yn gwneud cynnydd da neu ragorol o'u mannau cychwyn unigol.

Disgyblion Sipsiwn/Roma a Theithwyr

Mae canlyniadau i blant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr yn amrywio yn dibynnu ar anghenion unigol dysgwyr yn y cohort ym mhob cyfnod allweddol mewn blwyddyn benodol. Mae dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn y Fro yn cyflawni yn unol â'u lefel o gaffael yn yr iaith Saesneg.

Mae deilliannau ar gyfer dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr yn y Cyfnod Sylfaen yn dda, ac yng nghyfnodau allweddol 2, mae 3 a 4 yn dda iawn ar y cyfan.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae ein hymrwymiad parhaus i wella lefelau cyrhaeddiad drwy ymagwedd gydgysylltiedig gyda phartneriaid allweddol wedi sicrhau nad oes unrhyw ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol wedi gadael addysg orfodol, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, heb gymhwyster allanol cymeradwy. Mae'r perfformiad hwn yn ein rhoi ni yn chwartel uchaf awdurdodau lleol Cymru. Rydym yn gweithio'n agos iawn gydag asiantaethau partner i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae cyllid ychwanegol ar gael i ysgolion gan Lywodraeth Cymru ac mae'r cynlluniau ar gyfer defnyddio'r arian hwn yn cael eu cytuno gan yr awdurdod lleol a Chonsortium Canolbarth y De i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Mae canlyniadau i blant rydym yn gofalu amdanynt yn cymharu'n dda â'u cyfoedion ledled Cymru.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2019, roedd deilliannau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn dda gan fod 57% o garfan o 14 wedi cyflawni Dangosydd Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Roedd hyn yn welliant o 2018 pan gyflawnodd 41% y mesur hwn.

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn 2019, cyflawnodd 75% o garfan o 22 o Blant sy'n Derbyn Gofal Lefel 4+. O'r 25% na wnaethant gyflawni Lefel 4+, roedd gan dri datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ac roedd un dysgwr yn mynychu darpariaeth arbenigol ar gyfer anghenion cymdeithasol ac emosiynol.

Yn 2019, roedd y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn ddigonol er bod y mwyafrif yn cyflawni Lefel 5; cyflawnodd 68% o'r garfan o 22 Lefel 5+.

Caiff Plant sy'n Derbyn Gofal eu monitro'n agos gennym ym mhob cyfnod allweddol ac mae'r ysgol a darparwyr addysg eraill yn cydweithio â'r gwasanaeth seicoleg addysg i ddarparu pecynnau i ddiwallu anghenion, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, cyflawnodd 50% (9) o garfan o 18 Lefel 1 neu uwch.

Cyflawnodd 33% (6) Lefel 1. Ni chyflawnodd unrhyw ddisgyblion Lefel 2. Cyflawnodd 16.6% (3) Lefel 2+. Ni enillodd 50% (9) gymwysterau TGAU.

Disgyblion cymwys i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim

Er y bu cynnydd cadarnhaol, rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod ein gwaith gydag ysgolion yn parhau i gyflawni gwelliannau gofynnol. Rydym am sicrhau bod lefelau cyrhaeddiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyfateb i lefelau cyrhaeddiad eu cyfoedion.

Mae ein swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda gwasanaeth addysg Consortiwm Canolbarth y De. Mae'r Consortiwm yn gweithio'n agos gydag ysgolion i nodi arfer gorau i wella deilliannau i blant a phobl ifanc sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae arian ychwanegol ar gael i'r ysgol i dargedu'r grŵp hwn o ddysgwyr sy'n agored i niwed ac rydym yn rhannu arfer gorau gydag ysgolion i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Ar y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5) yn y Cyfnod Sylfaen, bu cynnydd ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gyda dros 85% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud o leiaf y lefel ddisgwyliedig o gynnydd o'r Dosbarth Derbyn hyd at ddiwedd blwyddyn 2 ar draws pob maes dysgu. Gwnaeth dros hanner y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gynnydd uwch na'r disgwyl.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, gwnaeth dros 75% o ddisgyblion cymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim o leiaf y lefel ddisgwyliedig o gynnydd ar draws y cyfnod allweddol. Roedd cynnydd mewn Saesneg a mathemateg yn gryfach nag o ran Cymraeg iaith gyntaf.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, gwnaeth dros 40% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o leiaf ddwy lefel o gynnydd ar draws y cyfnod allweddol.

Yng nghyfnod allweddol 4, roedd canlyniadau ar draws y pum mesur perfformiad dros dro newydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY)

Mae disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) yn cyflawni'n dda oherwydd y cymorth wedi'i dargedu a gânt gan ein swyddogion, sy'n gweithio'n agos gydag ysgolion ar sail anghenion.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2019, cyflawnodd y rhan fwyaf o ddysgwyr Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) y Dangosydd Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen (DCCS) ac roeddent yn perfformio'n well gyda'u cyfoedion ar draws Consortiwm Canolbarth y De (CCD).

Wrth gymharu data rhwng 2018 a 2019, bu cynnydd bach yn nifer y dysgwyr ag SIY yng nghategoriâu A - D a gwelliant mewn perfformiad, gydag 87.5% o garfan o 71 yn cyflawni'r DCCS.

Roedd deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dda. Yn 2019, cyflawnodd y rhan fwyaf o ddysgwr SIY y dangosyddion pwnc craidd ac roeddynt yn perfformio'n sylweddol well na'u cyfoedion ledled Cymru. Roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig hefyd yn gryf gyda mwyafrif o ddysgwyr SIY yn cyflawni Lefel 5+ ym mhob un o'r pynciau craidd.

Mae'r canlyniadau i ddysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 3 yn dda gyda'r mwyafrif o ddysgwyr yn cyflawni'r dangosyddion pwnc craidd. Yn 2017, 2018 a 2019, cyflawnodd bron pob un o'r dysgwyr â SIY y dangosyddion pwnc craidd o ran CA3.

Mae deilliannau Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol (A, B, C, D, E) yn 2018 / 2019 fel a ganlyn:

- Cyflawnodd pob disgybl â Saesneg fel iaith ychwanegol Lefel 1. Bu dysgwyr y Fro sydd â SIY, a gyflawnodd Lefel 1, wedi perfformio'n well na'u cyfoedion ar draws Cymru.
- Cyflawnodd 83.5% o ddisgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol Lefel 2. Bu dysgwyr y Fro sydd â SIY, a gyflawnodd Lefel 2, wedi perfformio'n well na'u cyfoedion ar draws Cymru.

- Cyflawnodd 71.2% Lefel 2+ (gan gynnwys llenyddiaeth Saesneg) a 65.7% Lefel 2+ (ac eithrio llenyddiaeth Saesneg). Esbonnir y gwahaniaeth hwn oherwydd na roddwyd rhai o'r dysgwyr ymlaen ar gyfer llenyddiaeth Saesneg, ond rhoddwyd pob un ohonynt ymlaen ar gyfer Saesneg.

Gwaharddiadau

Er bod y bwlch wedi lleihau ychydig, cafodd mwy o fechgyn na merched eu gwahardd yn ystod 2018/19. Mae bechgyn tua 4 gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd na merched.

Mae canran y disgyblion sy'n agored i niwed a waharddwyd o ysgolion prif ffrwd y Fro wedi cynyddu ychydig dros y 2 flynedd ddiwethaf.

Yn 2018 / 19, roedd y gyfradd wahardd fesul 1000, ar gyfer disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol (gan gynnwys rhugl) a hefyd disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn parhau'n is na chyfradd y rhai â Saesneg fel eu hiaith gyntaf neu ddisgyblion Gwyn Prydeinig.

Arhosodd nifer y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd yn 2018 / 19 yr un fath ag yn 2017 / 18, o'i gymharu â chynnydd o fwy na 10% yn nifer y plant nad oeddent yn derbyn gofal.

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn fwy tebygol o gael eu gwahardd na disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Presenoldeb

Mae cau'r bwlch rhwng dysgwyr sy'n agored i niwed (disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal, gyda Saesneg fel iaith ychwanegol neu ag anghenion dysgu ychwanegol) yn parhau i fod yn flaenoriaeth i bob ysgol. Er gwaethaf her a chymorth rheolaidd i ysgolion, mae presenoldeb cyffredinol disgyblion wedi gostwng ychydig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mewn ysgolion cynradd yn 2018 / 19, arhosodd presenoldeb yr un fath ag yn 2017 / 18 ac nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng presenoldeb bechgyn a merched. Cynyddodd presenoldeb plant sy'n derbyn gofal gan 1.2% yn 2018 / 19 ac mae'n uwch o ran plant nad ydynt yn derbyn gofal. Fodd bynnag, gostyngodd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ychydig, ac erbyn hyn mae 3.8% yn is na disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan.

Mewn ysgolion uwchradd, roedd presenoldeb yn parhau i raddau helaeth yn unol â 2017 / 18, er i bresenoldeb bechgyn wella ychydig iawn yn 2018 / 19 ac mae bellach 0.1% yn uwch na merched. Er bod presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu 0.7%, mae'n parhau - 0.49% yn is na phresenoldeb disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er eu bod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae presenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn uwch na phlant nad ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Defnyddir data i alluogi'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed i gefnogi dysgwyr yn effeithiol.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau perfformiad wedi bod yn dda ac yn cymharu'n dda â chyfoedion ledled Cymru.

Beth yw'r heriau?

Mae angen monitro lefelau cyrhaeddiad yn rheolaidd a chynllunio camau priodol i gefnogi gwelliannau.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Lle mae bylchau yn dal i fodoli, megis ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'n dal yn flaenoriaeth i gau'r bwlch.

Amcan Cydraddoldeb 3:

Gwneud dogfennau cyhoeddus yn haws i bobl eu darllen a'u deall

Beth rydym wedi'i wneud:

Mae'r Cyngor yn codi ymwybyddiaeth o ganllawiau iaith glir. Mae canllaw iaith a steil clir ar gael i staff gyfeirio ato ar fewnrwyd y Cyngor. Ceir hefyd arweiniad i ramadeg, geiriadur iaith glir, a chanllaw i atalnodi.

Mae modiwl e-ddysgu yn ymdrin â hanfodion iaith glir. Mae'n rhoi gwybodaeth am gynllunio ymlaen llaw, yn osgoi iaith gymhleth, yn glir ac yn dangos enghreifftiau.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Ceir gwasanaethau sy'n defnyddio dogfennau hawdd eu darllen, yn ogystal ag ysgrifennu mewn iaith glir. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Chwaraeon Anabledd, Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir, Budd-daliadau Tai a Gostyngiad y Dreth Gyngor, Refeniw a Budd-daliadau. Lle mae Gwasanaethau wedi nodi angen penodol, maent yn fwy tebygol o feddwl am y ffordd y maent yn cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth.

Beth yw'r heriau?

Mae angen meddwl mwy am ysgrifennu mewn iaith glir ac mae'n sgil y mae'n rhaid i bobl ei ddatblygu. Pan fydd staff o dan bwysau gwaith eraill, gall fod yn anodd dod o hyd i'r amser i ddatblygu'r sgiliau hyn ac ysgrifennu'n fwy amlwg.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Rydym yn datblygu fframwaith cymhwysedd craidd. Mae gennym gymhwysedd cyfathrebu a fydd yn cynnwys defnyddio iaith glir. Bydd asesu yn erbyn y cymhwysedd hwn yn digwydd yn ystod y broses arfarnu. Bydd cymorth ar gael ar gyfer dysgu pellach lle bo angen.

Amcan Cydraddoldeb 4:

Helpu staff i wybod mwy am gyfraith cydraddoldeb, a staff a'r cyhoedd i ddeall anghenion grwpiau gwarchoddedig

Beth rydym wedi'i wneud:

Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth gyffredinol, hyfforddiant asesu'r effaith ar gydraddoldeb, a chodi ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau penodol fel y gymuned fyddar. Mae modiwlau hyfforddi e-ddysgu hefyd ar gael sy'n cwmpasu pynciau fel ymwybyddiaeth gydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ac ymwybyddiaeth o drawsrywedd.

Rydym yn defnyddio digwyddiadau fel Mis Hanes Pobl Dduon, Mis Hanes LHDT, a Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd i godi ymwybyddiaeth o faterion o fewn y gweithlu. Rydym yn gwneud hyn drwy roi erthyglau am y digwyddiadau hyn ar ein mewnwyd, gan egluro beth ydynt a'r rhan y gall staff ei chwarae i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Rydym wedi sefydlu rhwydwaith i staff a chynghreiriaid lesbiaidd, hoyw, deurywiol, a thrawsrywiol o'r enw GLAM. Mae GLAM yn nodi achlysuron yn rheolaidd fel: Mis Manes LHDT; IDAHOBIT (Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Biffobia, Rhyngrywiaeth a Thrawsffobia); Diwrnod Gweledd Deurywiol; a Diwrnod Gweledd Trawsryweddol.

Rydym yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau, a gweithio gyda sefydliadau eraill. Rydym wedi cynnwys materion fel iechyd meddwl, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd ac anabledd.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Mae hyfforddiant yn helpu ein staff i ddeall y problemau y mae pobl â nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu. Mae'r staff wedi bod yn gadarnhaol ynglŷn â'r hyfforddiant. Mae'n eu helpu i ddeall sut i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion unigol defnyddwyr gwasanaeth.

Beth yw'r heriau?

Gall fod yn anodd i staff gymryd amser i ffwrdd o'u swyddi i fynychu hyfforddiant neu ddiwyddiadau a chwblhau modiwlau e-ddysgu. Mae hyn yn arbennig o wir am weithwyr rheng flaen.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Rydym wedi lleihau hyd y cyrsiau hyfforddiant i ddwy awr yn hytrach na diwrnod o hyd. Mae hyn yn helpu rheolwyr i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant.

Mae rhai aelodau o staff bellach yn gallu cyrchu modiwlau e-ddysgu o'u dyfeisiau eu hunain lle nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur yn y gwaith. Mae angen i ni sicrhau bod hyn ar gael i fwy o staff.

Mae angen i ni wneud y modiwlau e-ddysgu yn orfodol i staff sydd â mynediad atynt er mwyn gwneud yn siŵr bod mwy o staff wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb.

Mae angen i ni sicrhau ein proses gynefino er mwyn sicrhau bod gan staff wybodaeth am faterion cydraddoldeb o ddechrau eu cyflogaeth.

Amcan Cydraddoldeb 5:

Ceisio barn grwpiau gwarchodedig ar newidiadau arfaethedig i bolisi, cyllidebau a gwasanaethau

Beth rydym wedi'i wneud:

Mae gennym broses asesu effaith ar gydraddoldeb ar waith. Cafodd hyn ei adolygu a'i ail-lansio, gyda dolenni i ganllawiau, esiamplau, ac ymchwil i helpu swyddogion i gynnal asesiadau effeithiol. Mae ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig yn rhan bwysig o'r broses hon.

Mae ein Tîm Cyfathrebu yn cynnig cyngor ar ymgysylltu â Gwasanaethau. Mae'n cadw rhestr o sefydliadau y gallwn siarad â hwy am anghenion grwpiau gwarchodedig i helpu gyda'r broses hon. Mae hyn yn helpu gwasanaethau i ddod o hyd i safbwyntiau ac anghenion grwpiau gwarchodedig fel bod y rhain yn llunio polisiâu, penderfyniadau a gwasanaethau.

Rydym yn cynnal gwaith ymgysylltu ac ymgynghori helaeth ar gynlluniau a pholisiâu pwysig fel y Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae gennym Fforwm Cydraddoldeb Ymgynghorol sy'n cynnwys ystod o sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig. Mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i gyfnewid gwybodaeth am faterion cydraddoldeb.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Pan fyddwn yn ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig, maent yn rhoi llawer o wybodaeth i ni am yr hyn y maent am ei gael gan ein gwasanaethau a sut y gellid eu gwella i ddiwallu eu hanghenion yn well. Rydym yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein cynlluniau a'n polisiâu.

Beth yw'r heriau?

Gall fod yn anodd i grwpiau sy'n ceisio ymgysylltu â hwy gynrychioli buddiannau'r holl grwpiau gwarchoddedig.

Mae ymgysylltu yn cymryd amser a gall fod yn anodd dod o hyd i'r amser a'r adnoddau staff i ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau gwarchoddedig. Mae pwysau hefyd ar nifer cymharol fach o grwpiau i ymateb i geisiadau i ymgysylltu ac ymgynghori.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Byddwn yn parhau i gadw golwg ar sefydliadau lleol sy'n gallu ymgysylltu â ni ar newidiadau arfaethedig i bolisi, cyllidebau a gwasanaethau.

Byddwn yn hyrwyddo pwysigrwydd siarad â defnyddwyr gwasanaethau ar gam cynnar yn eu cynigion er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried eu safbwyntiau a bod newidiadau i'r gwasanaeth yn ystyried y wybodaeth hon.

Gyda phandemig byd-eang parhaus, mae wedi bod yn anodd ymgysylltu â grwpiau yn yr un modd ag y byddem wedi'i wneud yn y gorffennol. Mewn blynyddoedd blaenorol, byddem wedi mynychu cyfarfodydd i siarad â grwpiau am eu hanghenion, neu effaith gwasanaeth neu bolisi arnynt. Fodd bynnag, ni fu hynny'n bosibl ers mis Mawrth 2020. Ers hynny, mae ein gwaith ymgysylltu wedi dibynnu'n bennaf ar ddulliau digidol fel cyfarfodydd Zoom neu Teams, ffurflenni adborth ar-lein a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ein gwaith. Gallai hyn fod wedi cael effaith negyddol ar rai grwpiau gwarchoddedig, megis pobl hŷn neu bobl sydd â mynediad cyfyngedig i lwyfannau digidol.

Byddwn yn diweddarau ein Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd eleni ac er y bydd llawer o ffocws ar ddulliau ymgysylltu digidol, byddwn yn rhoi sylw dyledus i anghenion grwpiau gwarchoddedig ac yn annog unrhyw un sy'n ymgymryd â phrosiectau ymgynghori neu ymgysylltu i ddod o hyd i ffyrdd eraill o ymgysylltu â grwpiau penodol.

Amcan Cydraddoldeb 6:

Annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i adrodd am droseddau casineb, aflonyddwch a gwahaniaethu

Beth rydym wedi'i wneud:

Mae'r Cyngor wrthi'n ailwampio'r Grŵp Cydlyniant Cymunedol gydag aelodau o'r gymuned, y Tîm Diogelwch Cymunedol, yr Heddlu ac asiantaethau partner eraill. Bydd yn edrych ar faterion cymunedol, tensiynau cymunedol, ystadegau troseddau casineb ac ystadegau trosedd ac anhrefn.

Mae proses monitro tensiwn ar waith yn y Fro a gydlynir gan y Swyddog Cydlyniant Cymunedol. Bob wythnos, anfonir ffurflen at aelodau'r gymuned, asiantaethau a sefydliadau i ddweud wrthym am unrhyw densiynau yn y gymuned a allai waethygu neu achosi trosedd ac anhrefn. Mae'r ymatebion yn amrywio o anghydfodau rhwng cymdogion, digwyddiadau amheus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yna, mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn gweithio gydag asiantaethau partner, sefydliadau a'r Heddlu i geisio datrys unrhyw densiynau.

Mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd rhoi gwybod am droseddau casineb ar ymweliadau cymunedol. Maent wedi codi ymwybyddiaeth o Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb drwy annog pobl i ddweud pam eu bod yn cefnogi'r wythnos. Dosbarthwyd negeseuon cyfryngau cymdeithasol drwy gydol yr wythnos ar beth yw troseddau casineb a sut i roi gwybod amdano. Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Troseddau Casineb, a thrafodir unrhyw ddigwyddiadau troseddau casineb gyda phartneriaid yn y grŵp datrys problemau a gynhelir bob mis.

Mae aelodau'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi cwblhau hyfforddiant i ddeall mwy o ddealltwriaeth o faterion yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys hunaniaeth rywiol a hyfforddiant ymwybyddiaeth o rywedd, beth sy'n digwydd mewn gwirionedd pan gaiff rhywun ei gyfeirio at raglen Prevent, deall ac ymateb i fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth, meithrin cydlyniant mewn addysg, dysgu o'r dull gwrth-sibrydion ac adeiladu gwydnwch, cyfryngu cymunedol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae aelodau'r

Tîm Diogelwch Cymunedol hefyd yn mynychu GLAM, rhwydwaith Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer cydweithwyr a chynghreiriaid LHDT.

Mae aelodau'r Tîm Diogelwch Cymunedol a Swyddogion eraill Cyngor y Fro yn eistedd ar Banel Channel. Mae Channel yn broses ymyrraeth gynnar sy'n amlasiantaethol. Nod y Panel yw diogelu unigolion rhag cael eu tynnu i mewn i eithafion neu ymddygiad terfysgol.

Mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau fel y Gymdeithas Lles Mwslimaidd i fonitro unrhyw densiynau.

Mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol wedi bod yn annog cwblhau Cynllun Setliad yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer dinasyddion yn y Fro o'r Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir i barhau i fyw yn y DU. Maent wedi gweithio gydag asiantaethau a sefydliadau i annog cwblhau a chynnig gwasanaethau cymorth.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Mae gwefannau cyfryngau cymdeithasol Bro Ddiogelach yn rhannu negeseuon cymunedol a gwybodaeth ddefnyddiol. Mae'r wybodaeth yn cysylltu â sefydliadau ac asiantaethau partner eraill. Mae system negeseuon yr ysgol hefyd yn ffordd dda o rannu negeseuon.

Mae Panel Channel yn caniatáu mwy o weithio mewn partneriaeth, ond hefyd gwybodaeth, tueddiadau ac adnoddau i'w rhannu gan weithwyr proffesiynol.

Bydd y Grŵp Cydlyniant Cymunedol sydd wedi'i ail-wampio yn ceisio cwmpasu pob math o faterion cymunedol. Mae'n bwysig ei fod yn cynnwys amrywiaeth eang o aelodau'r gymuned.

Mae ymweliadau cymunedol a digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned o fudd i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Maent yn annog adrodd am densiynau cymunedol.

Mae defnyddio diwrnodau ymwybyddiaeth i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac annog adrodd yn ffordd fuddiol o hyrwyddo negeseuon cadarnhaol. Mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn ffordd ddefnyddiol o godi ymwybyddiaeth.

Beth yw'r heriau?

Yr her yw parhau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol a chynnal y lefel bresennol o ymwybyddiaeth o faterion cymunedol. Mae hyn yn ein galluogi i weithio gyda phartneriaid i ymateb i unrhyw densiynau.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Bydd y Tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i weithio mewn partneriaeth i ymateb i unrhyw densiynau neu bryderon cymunedol.

Bydd y Swyddog Cydlyniant yn parhau i gyfathrebu â grwpiau cymunedol ac aelodau i ddysgu am unrhyw faterion neu densiynau cymunedol.

Bydd y Grŵp Cydlyniant Cymunedol sydd wedi'i ail-wampio'n cael ei lansio i gynnwys mwy o aelodau'r gymuned a bydd yn ymhelaethu ar ba wybodaeth y mae aelodau'n ei thrafod fel bod y cyfarfod yn cynnwys ei holl aelodau.

Atal Bwlio mewn Ysgolion

Beth rydym wedi'i wneud:

Rydym yn gweithio gydag ysgolion i leihau bwlio gyda ffocws ar grwpiau agored i niwed sy'n fwy tebygol o ddiodef bwlio. Rydym wedi cyflawni hyn drwy:

- darparu "offeryn meithrin gallu" lles i ysgolion ag arfer da a nodwyd mewn perthynas â bwlio;
- fonitro achosion o fwlio mewn ysgolion, fesul ysgol;
- rhannu'r wybodaeth hon ag Ymgynghorwyr Her;
- monitro achosion o fwlio yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- datblygu polisi bwlio enghreifftiol sydd wedi'i fabwysiadu gan bob ysgol;
- cynnal ymweliadau i ysgolion o ganlyniad i ddadansoddi data a dilyn hyn gan ymweliadau adolygu os oes angen;
- darparu polisïau atal bwlio;

- awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ar gyfer wythnos atal bwlio;
- darparu hyfforddiant diogelu i bob ysgol sydd wedi cynnwys gwybodaeth ar fwlio ac yn enwedig bwlio ar-lein;
- datblygu Pecyn Cymorth Trawsrywiol yn ddiweddar i roi arweiniad i ysgolion sy'n amlygu'r risg o fwlio gyda'r grŵp o bobl ifanc hwn ac yn amlinellu sut y gall ysgolion atal hyn.

Rydym wedi rhoi polisiâu gwrthfwlio enghreifftiol mewn lle ar gyfer ysgolion a chomisiynu'r sefydliad "Bullies Out" i arwain ar waith datblygu gydag ysgolion.

Rydym wedi comisiynu Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a Stonewall i ddarparu hyfforddiant sy'n pwysleisio bod gan blant a phobl ifanc yn aml nifer o nodweddion gwarchoddedig a bod hyn yn cynyddu'r perygl o fwlio. Mae hwn yn faes y byddwn yn ceisio'i ddatblygu yn y dyfodol.

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi gweithio mewn ysgolion ac mae swyddogion heddlu cymunedol hefyd bod mewn ysgolion yn gweithio ar ystod o faterion.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Mae'r cymorth a roddir i ysgolion wedi cael effaith gadarnhaol ar y cymorth a roddir i blant a phobl ifanc mewn ysgolion. Mae'r Arolygiaeth Ysgolion, Estyn, wedi cydnabod hyn drwy graddio 98% o'r ysgolion a arolygwyd fel naill ai'n dda neu'n rhagorol ar gyfer Cymorth a Chyfarwyddyd Lles a Gofal. Mae'r elfennau hyn yn canolbwyntio'n glir ar blant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel mewn ysgolion.

Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda Chonsortium Canolbarth y De i gefnogi cymorth ysgol i ysgol yn seiliedig ar rannu arfer gorau.

Rydym yn buddsoddi mewn timau canolog i helpu ysgolion i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei potensial.

Sylweddolom ei bod yn bwysig datblygu'r polisi gwrth-fwlio newydd mewn ymgynghoriad â phobl ifanc fel ei fod yn cael ei lywio gan y rhai sydd agosaf at y materion. Mae'r pecyn cymorth trawsryweddol yn cael ei adolygu i ddatblygu hyn ymhellach ac ymgynghorir yn llawn â phobl ifanc yn y broses hon.

Beth yw'r heriau?

Mae'r heriau wedi bod fel a ganlyn:

- sicrhau bod pob ysgol yn cwblhau'r ffurflen bwlio bob tymor;
- datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn yw bwlio;
- ein gallu i fonitro gweithdrefnau gwrth-fwlio mewn ysgolion;
- Mae nifer yr achosion o fwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth yn isel.

Mae dadansoddi data wedi llywio'r gwaith o ddatblygu darpariaeth a gwasanaethau. Er ein bod yn gwneud cynnydd, byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn trwy fuddsoddi mewn swyddogion i weithio gydag ysgolion a phobl ifanc. Pwysleisiwn bwysigrwydd gweithio o'r ysgol i'r ysgol. Mae ysgolion yn gwneud hyn yn eang fel y gallant rannu arfer dda yn ogystal ag ymyriadau llwyddiannus.

Ni fu'n bosibl casglu data ar fwlio mewn ysgolion y flwyddyn academaidd hon oherwydd cau ysgolion o ganlyniad i Covid, felly, nid yw'n bosibl cymharu â data blaenorol.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Rydym yn datblygu polisi gwrth-fwlio newydd a fydd yn canolbwyntio mwy ar wrando ar bobl ifanc ac yn enwedig y rheini o grwpiau bregus. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gweithio gydag ysgolion a phobl ifanc i ddatblygu'r polisi hwn sydd â mwy o bwyslais ar nodweddion gwarchoddedig.

Bydd pob ysgol yn gweithredu'r polisi hwn. Bydd yn cynnwys monitro mwy cadarn ar achosion o fwlio a digwyddiadau untro yn erbyn plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchoddedig.

Amcan Cydraddoldeb 7:

Canfod ffyrdd newydd o gyrraedd dioddefwyr o gamdriniaeth a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau camdriniaeth ddomestig yn y gymuned.

Beth rydym wedi'i wneud

Mae gan Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol -canlyniadau pell-gyrhaeddol i deuluoedd, plant, cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol. Mae angen i Wasanaethau'r Cyngor ddatblygu dulliau gwahanol a chymesur o reoli'r materion hyn ym Mro Morgannwg.

Mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a phartion eraill, rydym wedi datblygu [Strategaeth Ranbarthol 5 mlynedd \(2018 - 2023\)](#). Ein cenhadaeth yw bod pobl sy'n byw, gweithio, astudio ac ymweld â'n rhanbarth yn cael y cyfle i fyw bywydau cadarnhaol ac annibynnol heb gael eu heffeithio gan drais a cham-drin.

Fel rhan o'r strategaeth honno, yr ydym yn ymwybodol o sut yr ydym yn ymateb i anghenion amrywiol dioddefwyr a'u plant, gan feddwl am eu nodweddion gwarchoddedig. Rydym ni a'n partneriaid yn rhannu gwerthoedd bod yn agored eu meddwl ac yn barchus gydag ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym yn cydnabod unigoliaeth ac yn cydnabod nad yw pobl yn grŵp unffurf o ddioddefwyr.

Mae partneriaid yn mynnu bod yr un gwerthoedd hyn yn cael eu harddangos yn y gwasanaethau arbenigol y maent yn eu comisiynu i gefnogi dioddefwyr. Rhaid iddynt ymrwymo i arfer gwrth-ormesol a gwrthwahaniaethol, arddangos derbyniad anfeirniadol o brofiadau'r dioddefwr a dangos dealltwriaeth ac empathi. Rhaid i wasanaethau fod yn gynhwysol, gan gydnabod anghenion penodol a rhwystrau i gael gafael ar gymorth. Rhaid iddynt hefyd gefnogi safbwynt y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ddarparu llinellau cymorth i sicrhau bod galwyr benywaidd a gwrywaidd yn cael yr un lefel o wasanaeth.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol - Atal Y Fro a Thîm Cefnogi Pobl y Cyngor. Gyda'n gilydd rydym yn sicrhau bod

dioddefwyr cam-drin domestig yn gallu cael cymorth, cefnogaeth ac amddiffyniad. Mae hyn yn cynnwys: lloches, tai ail gam a thai gwasgaredig; a mynediad cwnsela i raglenni perthnasol, gan gynnwys cefnogaeth allgymorth.

Rydym yn cyfeirio at wasanaethau arbenigol yn ôl y gofyn, fel:

- BAWSO – gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol ar gyfer cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar gyfer y rhai yr effeithir gan, neu sy'n wynebu risg o, gam-drin domestig a phob math o drais megis anffurfio organau cenhedlu benywod, priodasau dan orfod, trais ar sail anrhydedd, masnachu mewn pobl a materion caethwasiaeth cyfoes;
- Prosiect Dyn Cymru Ddiogelach - mae'r prosiect yn cynnig cymorth i ddynion heterorywiol, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol sy'n dioddef o gam-drin domestig gan bartner.
- Rainbow Bridge - dyma wasanaeth a gaiff ei gynnal gan Gymorth i Ddioddefwyr sy'n benodol yn rhoi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n uniaethu fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol;
- Byw Heb Ofn - llinell gymorth gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig gwybodaeth a chyingor am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Llwybrau Newydd – yn darparu cwnsela cam-drin rhywiol cyfredol a hanesyddol i fenywod, dynion a phlant;
- Gwalia - lloches i ddynion.

Yn y Fro, mae gennym Gydlynnydd Atgyfeirio Asesiad Cam-drin Domestig sy'n derbyn adroddiadau am holl achosion yr heddlu o gam-drin domestig. Rydym yn cynnal asesiad risg cadarn ac yn cysylltu â dioddefwyr sydd wedi rhoi eu caniatâd i gynnig cymorth a chyfeirio. Dymuniadau'r dioddefwr sy'n pennu sut rydym yn ymdrin â hyn, yn dibynnu ar ei anghenion unigol a chyfannol. Rydym yn cynnig y gwasanaeth hwn i bawb, gan gynnwys y rhai o amrywiaeth o grwpiau gwarchoddedig.

Cyflwynir adroddiadau chwarterol a blynnyddol i Lywodraeth Cymru ar y Cynllun Cyflawni Rhanbarthol. Rydym yn adrodd ar gynnydd gyda'r Strategaeth Ranbarthol Caerdydd a'r

Fro ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ar y nodweddion gwarchoddedig. Rydym hefyd yn adrodd i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae'r Cyngor yn mynd ati i gefnogi gwaith Fforwm 50+ y Fro i gynyddu amlygrwydd a gwasanaethau ar draws Bro Morgannwg.

Trefnodd Bro Ddiogelach y digwyddiad 'rhuban gwyn dynol ryw' gydag Ysgol Gynradd Oakfield a gafodd sylw cadarnhaol sylweddol yn y cyfryngau ac a helpodd i godi ymwybyddiaeth.

Cynhaliodd Bro Ddiogelach ymgyrch cyfryngau cymdeithasol llwyddiannus a oedd yn canolbwyntio ar stelcio. Mae'n helpu i wella dealltwriaeth o beth yw stelcio a sut y gall dioddefwr gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth.

Yn y Fro, mae'r rheolwr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi datblygu cysylltiadau agos â'r gwasanaeth Gweithredu Cynnar Ar y Cyd newydd, sy'n ceisio nodi plant sydd mewn perygl yn gynnar yn sgil cam-drin domestig er mwyn lleihau nifer achosion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u heffaith. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gweithio ar draws y tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd, y llinell cyngor i deuluoedd, diogelwch cymunedol a thîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i wella'r broses o adnabod yn gynnar a chyfathrebu dilynol rhwng gwasanaethau.

Rydym yn gweithio i wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng Landlordiaid Cymdeithasol Rhanbarthol sy'n rheoli llety ar draws yr ardal a'r Gwasanaeth Asesu a Chydlynu Atgyfeiriadau Cam-drin Domestig, sy'n rheoli ceisiadau Caledu Targedau. Mae hyn wedi sicrhau 'gwasanaeth cofleidiol' gwell i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Y cam nesaf yw sicrhau bod dioddefwyr ar draws y rhanbarth yn cael gwasanaeth cyson a dibynadwy.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu

Rydym yn gwybod ei fod yn bwysig codi ymwybyddiaeth o gam-drin yn y cartref drwy'r gymuned gyfan. Gwnawn hyn drwy gynnal hyfforddiant, diwrnodau codi ymwybyddiaeth

a gweithgareddau. Rydym yn hysbysebu'r rhain yn eang ledled Bro Morgannwg. Mae hyn yn cynnwys y Fframwaith hyfforddi cenedlaethol 'Gofyn a Gweithredu' a ddarperir i staff awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Er enghraifft, rydym yn cynnal ymgyrchoedd a digwyddiadau ymwybyddiaeth trwy gydol y flwyddyn ac rydym yn gwneud hyn i gyd-fynd â rhai digwyddiadau yn y calendr fel yr ymgyrch Rhuban Gwyn, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, 16 diwrnod o weithredu, Balchder, a'r Wythnos Ddiogelu.

Rydym yn canolbwyntio ar bynciau perthnasol yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol. Rydym yn hyrwyddo'r ymgyrchoedd hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd: wyneb yn wyneb; drwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau; cynnal cynadleddau; defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, radio, teledu a'r wasg. Bydd gwybodaeth hefyd ar daflenni, pennau llythyron ac e-byst.

Mae Atal y Fro, gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol Bro Morgannwg, yn hysbysebu ei wasanaethau trwy'r cyfryngau cymdeithasol, y wasg a digwyddiadau hyfforddi ymwybyddiaeth. Mae'n gweithio gyda'r sector statudol a'r trydydd sector i sicrhau ei fod yn hysbysebu ei wasanaethau i gynifer o bobl â phosibl, gan gynnwys y Fro wledig.

Rydym yn chwarae ein rhan i sefydlu dull systemau cyfan i ymateb i'r materion a gwneud effaith gadarnhaol ar ddioddefwyr a goroeswyr ar draws ardal De Cymru. Mae hyn yn cynnwys sefydlu prosesau Ymgysylltu â Goroeswyr De Cymru. Mae sefydliad SEEdS ('Survivors Empowering and Educating Services') yn rhan o hyn.

Rydym wedi dysgu ei bod yn bwysig dysgu oddi wrth ddioddefwyr a goroeswyr. Helpodd SEEds i lywio datblygiad [Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023](#). Darparodd cynrychiolwyr SEEdS ddyfyniadau a mewnbwn gwerthfawr i'r ymrwymadau a wnaed gan bartneriaid.

Mae Ymgysylltiad Goroeswyr wedi parhau i wella drwy gydol 2019/20. Mae ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru wedi cael eu hyrwyddo'n eang ar draws y rhanbarth. Hefyd, mae goroeswyr yn parhau i gymryd rhan yn rhai o is-grwpiau strategol y rhanbarth ac yn siarad mewn digwyddiadau i rannu eu profiadau a dylanwadu ar wasanaethau. Yn

benodol, datblygwyd perthynas effeithiol gyda SEEdS – 'Survivors Empowering and Educating Services'. Mae partneriaid wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o oroeswyr SEEdS ar draws amrywiaeth o wahanol brosiectau ac ymgyrchoedd. Rydym wedi gofyn am farn dioddefwyr gwrywaidd ar draws De Ddwyrain Cymru i lywio gweithgarwch comisiynu ar gyfer gwasanaeth penodol i ddioddefwyr gwrywaidd. Mae partneriaid yn parhau i gasglu adborth o bob rhan o'r ystod o nodweddion gwarchoddedig a mathau o droseddau, gan gynnwys goroeswyr sydd wedi profi trais ac ymosodiadau rhywiol, gweithwyr rhyw a'r rhai sydd wedi profi Anffurfio Organau Rhywiol Merched.

Mae Merthyr Mwy Diogel yn treialu ymyriad teuluol ar draws rhanbarth Rhondda Cynon Taf / Merthyr. Mae'r Rhaglen Deuluol wedi mabwysiadu dull ymyrraeth gynnar sy'n canolbwyntio ar y teulu. Mae hyn yn helpu Gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigolion, cyfrannu at ganlyniadau cyffredinol y teulu cyfan, a gwella gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol presennol gan gynnwys ymyriadau cyflawnwyr. Mae Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru, yn cynnal gwerthusiad allanol, annibynnol. Bydd y canfyddiadau'n rhoi cyfle i Ranbarth Caerdydd a'r Fro ystyried y fantais bosibl o ddarparu gwasanaeth tebyg.

Beth yw'r heriau?

Mae'n heriol cynnal ymwybyddiaeth ar draws y gymuned fel bod pobl yn gwybod ble i gael cyngor a chymorth pan fydd arnynt ei angen. Mae hefyd yn her i gynnal yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer amrywiaeth o raglenni cymorth.

Tua diwedd 2019 - 2020, nid oeddem yn gallu trefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb oherwydd COVID 19. Fodd bynnag, gwnaethom barhau i godi ymwybyddiaeth a chynnig cymorth ar-lein a thrwy ymgyrchoedd yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i ddatblygu Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023. Mae hwn yn nodi sut y bydd partneriaid yn llunio ac yn cyflwyno ymatebion i bob math o gam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y rhanbarth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Y weledigaeth yw bod pobl sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro Morgannwg, yn cael cyfle i fyw bywydau cadarnhaol, annibynnol heb gael eu heffeithio gan drais a cham-drin.

Byddwn yn parhau i fynychu a chymryd rhan mewn nifer o grwpiau llywio rhanbarthol a lleol fel ein bod yn symud ymlaen ac yn cyflawni camau gweithredu a chanlyniadau'r strategaeth a'r cynllun cyflawni rhanbarthol.

Byddwn yn parhau i ddysgu o'r prosiectau amrywiol sy'n rhan o'r Strategaeth a lle mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus mewn meysydd eraill, byddwn yn ystyried eu treialu yn y Fro. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyflwyno'r fenter DRIVE – ymyriad wedi'i dargedu ar gyfer troseddwy'r risg uchel.

Mae'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth arbenigol i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau. Bydd Cyngor Caerdydd yn arwain ar y broses gaffael ar ran Cyngor Bro Morgannwg. Roeddem yn rhagweld y byddem yn comisiynu'r gwasanaeth yn ystod 2020, ond mae argyfwng COVID 19 wedi oedi ein gallu i ddatblygu hyn.

Yn gynharach eleni, cyfarfu RISE a Thîm Sipsiwn a Theithwyr Cymru i drafod ffyrdd o rannu gwybodaeth ac arbenigedd i ddatblygu hyfforddiant cyfatebol i staff sy'n gweithio yn y ddau faes. Yn ystod 2020 - 2021, bydd RISE-Caerdydd ac Atal y Fro yn rhoi cymorth i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn y rhanbarth. Mae staff awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Fframwaith Cenedlaethol Grŵp Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a byddant yn cwblhau hyfforddiant pellach pan gânt eu cyflwyno ledled y rhanbarth.

[Mae'r Strategaeth Gyflawni Ranbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol](#) a chynllun gweithredu pum mlynedd ar gael ar [dudalen Diogelwch Cymunedol gwefan Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd](#). Mae gan y wefan hefyd [fersiwn un dudalen o'r Strategaeth](#) a'r [adolygiad blynyddol](#).

Amcan Cydraddoldeb 8:

Lleihau'r bwlch cyflog a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig

Beth rydym wedi'i wneud:

Mae gan y Cyngor gynllun gweithlu sy'n cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod gweithwyr y Cyngor yn adlewyrchu'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys camau i leihau'r bwlch cyflog o ran y rhywiau. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf:

- Ar 31 Mawrth 2016, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 8.88%.
- Ar 31 Mawrth 2017, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 8.81%.
- Ar 31 Mawrth 2018, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 8.01%.
- Ar 31 Mawrth 2019, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 5.48%.
- Ar 31 Mawrth 2020, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 3.33%.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng o tua 9% i lai na 4% mewn cyfnod cymharol fyr. Mae newidiadau i'r strwythur cyflogau yn ogystal â gwelliannau mewn recriwtio wedi helpu gyda'r bwlch cyflog. Oherwydd cyfansoddiad y gweithlu, bydd yn anoddach lleihau hyn ar yr un gyfradd ond rydym yn edrych yn gyson ar ffyrdd o wella'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach.

Bu gostyngiad hefyd yn y bwlch cyflog ethnigrwydd. Y gwahaniaeth yn y gyfradd gymedrig fesul awr rhwng Gwyn Prydeinig a Lleiafrifoedd Ethnig yw £0.46 (£13.97 ar gyfer Gwyn Prydeinig a £13.52 ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig) sy'n ostyngiad o gymharu â £0.56 y llynedd (£13.20 ar gyfer Gwyn Prydeinig a £12.64 ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig). Y bwlch cyflog cymedrig ar gyfer ethnigrwydd fel canran yw 3.29%.

Rydym wedi ei wneud yn flaenoriaeth i ddenu mwy o bobl ifanc i weithio gyda ni gan nad yw'r gyfran o staff ifanc a gyflogwn yn cynrychioli'r gyfran o bobl ifanc yn ein cymuned.

Rydym yn defnyddio prentisiaethau i gefnogi'r amcan hwn. Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig nifer o brentisiaethau sylfaen i bobl ifanc sy'n 16-24 oed.

Rydym yn mynychu ffeiriau swyddi ar gyfer ysgolion, colegau, prifysgolion a gyrfaeoddd lleol i hyrwyddo'r ystod o yrfaeoddd a swyddi yn y Cyngor. Mae ein ffocws wedi bod ar barhau ar ddileu'r stereoteipiau a'r rhagdybiaethau gyrfaol a'r swyddi sydd gan lawer o bobl.

Cesglir data yn ôl nodweddion gwarchoddedig a chaiff ei adrodd yn flynyddol yn Adroddiad Gwybodaeth am Gyflogaeth y Cyngor ([Atodiad 5](#)).

Rydym yn coladu, yn adrodd ac yn cyhoeddi ein Polisi Cyflogau'r Cyflogeion Blynyddol. Mae hyn yn darparu fframwaith i wneud yn siŵr bod ein cyflogeion yn cael eu talu'n deg ac yn wrthrychol ac yn sicrhau ei fod yn broses agored a thryloyw.

Rydym yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal fel y gallant fanteisio ar brofiad gwaith a llwybrau prentisiaeth i gefnogi eu datblygiad gyrfaol parhaus. Mae hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar wella cyfraddau cyflogaeth pobl ifanc sydd wedi'u tangynrychioli yn ein gweithle.

Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc, pobl hŷn, gweithwyr a ddiswyddwyd, rhieni sengl, a phobl anabl. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn parhau i feddu ar statws "Hyderus o ran Anabledd" ac mae'n gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith leol i gyflawni camau craidd. Er enghraifft, rydym yn darparu cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a/neu sy'n ddi-waith yn yr hirdymor.

Rydym wedi gweithio gyda Stonewall Cymru er mwyn darparu cyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol, neu drawsrywiol drwy gynllun Stonewall.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Sylweddolwn fod angen i ni gymryd ystod o fesurau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, cynnal y gwelliant, a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau

gwarchoddedig. Mae gennym enghreifftiau o sut rydym wedi rhoi cynnig ar wahanol ddulliau ac effaith y rhain.

Cyflwynwyd y Cyflog Byw gennym ym mis Ebrill 2016. Gwnaethom wella effaith hyn drwy roi'r gorau i ddefnyddio pwynt cyflog isaf ein strwythur cyflog. Roedd menywod yn y gweithlu yn elwa'n arbennig o hyn.

Rydym wedi defnyddio gwaith datblygu rheolwyr a chynllunio olyniaeth i gefnogi ac annog staff i wneud cais am swyddi gwag. Cafodd y rhan fwyaf o benodiadau Prif Swyddogion eu gwneud yn dilyn proses gystadleuol lle'r oedd ymgeiswyr mewnol yn llwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at newid yn y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Prif Swyddogion.

Rydym wedi mynychu ffeiriau swyddi gyrfaoedd mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a rhai lleol i hyrwyddo'r amrywiaeth o yrfaedd a swyddi yn y Cyngor. Rydym wedi canolbwyntio ar ddileu stereoteipiau swyddi a gyrfa a herio syniadau pobl am y mathau o swyddi sy'n agored iddynt.

Rydym wedi diwygio'r system arfarnu - #maeamdanafi. Mae hyn yn rhoi cyfle i staff gyflwyno syniadau am ddatblygu eu potensial. Gallant archwilio cyfleoedd datblygu eu hunain a fydd yn cyd-fynd ag anghenion busnes. Ategwyd hyn gan Gaffi Arweinyddiaeth y Cyngor sy'n hyrwyddo datblygiad personol gweithwyr, yn eu helpu i rwydweithio ac i chwalu rhwystrau.

Beth yw'r heriau?

Mae'n anodd sicrhau newid yn gyflym yn y meysydd hyn. Mae'n gofyn am ymdrech barhaus dros gyfnod hir o amser. Byddwn yn parhau i fonitro a mynd i'r afael â bylchau cyflog ac yn anelu at adeiladu gweithlu sy'n gynrychioliadol o'r gymuned leol.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r bwlch cyflog ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig. Byddwn yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â bylchau cyflogau yr ydym yn eu nodi.

Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cais am swyddi Cyngor. Yn benodol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddenu mwy o bobl ifanc i weithio gyda ni er mwyn i'n gweithlu adlewyrchu'n well y gyfran o bobl ifanc yn ein cymuned.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio systemau datblygu rheolwyr a chynllunio olyniaeth i gefnogi datblygiad ein staff fel eu bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd datblygu gyrfa.

Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol

Fe welwch yn [Atodiad 4](#) bod gwasanaethau wedi casglu data a hyrwyddo cydraddoldeb mewn sawl ffordd. Yn ogystal â hyn, rydym yn adrodd ar faterion eraill sy'n ein helpu i hyrwyddo cydraddoldeb isod.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yn cyfrannu at Amcanion Cydraddoldeb 1, 4 a 5.

Rydym wedi cael system ar gyfer asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig am sawl blwyddyn. Rydym yn ei hadolygu ac yn ei gwella o bryd i'w gilydd. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ein hasesiadau ar ein gwefan.

Ym mis Ionawr 2017, cyflwynom broses newydd ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Ceir dolenni i ganllawiau, ymchwil a data. Mae'n caniatáu i swyddogion ddechrau'r broses ac yna mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r Tîm Cydraddoldeb am gyngor. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwella ansawdd yr asesiadau.

Rydym yn parhau i gefnogi rheolwyr i feddwl am eu gwaith yn y ffordd hon. Rydym yn cynnig hyfforddiant ar sut i gynnal asesiadau. Mae modiwl e-ddysgu i bobl ddysgu ar-lein sut i'w wneud. Gofynnwn iddynt ddangos eu proses o feddwl mewn cofnod ffurfiol y gallwn ei gyhoeddi.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae wedi bod yn bwysig i ni feddwl am sut y gallai'r newidiadau o ran y gyllideb effeithio ar ein gwasanaethau. Wrth i ni baratoi cyllidebau, rydym yn meddwl am sut y gallai newidiadau effeithio ar grwpiau gwarchoddedig. Rydym hefyd yn meddwl am sut y gallwn leihau effeithiau negyddol arnynt. Rydym yn cyhoeddi ar ein gwefan yr asesiad o ran sut mae'r gyllideb yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig.

Yn fwy diweddar, rydym hefyd wedi gorfod meddwl am ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol iawn. Mae hyn oherwydd ein bod yn gwybod y bydd mwy o bwysau'n cael eu rhoi ar gyllidebau bob blwyddyn am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Wrth i ni wneud hyn, rydym yn meddwl am sut y bydd hyn yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig ac rydym yn siarad gyda hwy amdanynt.

Hyfforddiant Cydraddoldeb

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Rydym yn parhau i ddarparu rhaglen o sesiynau hyfforddiant byr i sicrhau bod staff yn gwybod am y gyfraith cydraddoldeb newydd. Rydym yn parhau i gynnig modiwlau e-ddysgu. Mae'r hyfforddiant hwn yn cwmpasu nifer o feysydd. Mae hyn yn cynnwys: gwybodaeth sylfaenol am gydraddoldeb; sut i asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig (asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb); a gwybodaeth am faterion trawsrywiol.

Gall pobl edrych ar yr e-fodiwlau ar y cyfrifiadur wrth eu desgiau. Gallant hefyd eu cyrchu o gartref. Gall hyn ei wneud yn haws i rai pobl wneud yr hyfforddiant. Gallwn fonitro pwy sydd wedi cwblhau'r math hwn o hyfforddiant.

Mae rhai aelodau o staff nad ydynt yn gallu mynychu'r sesiynau hyfforddi ac nid oes ganddynt fynediad i fodiwlau e-ddysgu. I'r aelodau hyn o staff, gallwn gynnig llyfryn sy'n esbonio'r pethau allweddol sydd angen iddynt wybod. Fodd bynnag, gall staff bellach gael fynediad at e-ddysgu drwy eu dyfeisiau personol felly mae hyn bellach yn llai o broblem.

Rydym hefyd yn cynnig mathau eraill o hyfforddiant o bryd i'w gilydd, fel hyfforddiant ymwybyddiaeth fyddar, hyfforddiant ymwybyddiaeth gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Cynhaliwyd Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Hunaniaeth Rhywedd yn Ionawr 2020.

Caffael

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Mae proses gaffael gorfforaethol y Cyngor yn sicrhau bod prosesau caffael yn ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth statudol. Mae hyn yn cynnwys diwydrwydd dyladwy drwy ddogfennau tendro.

Mae gan y cam dethol o broses gaffael y Cyngor saith o gwestiynau wedi'u sgorio a all ddod yn fater llwyddo neu fethu gorfodol os oes angen. Y cwestiwn cyntaf yw:

"Fel cyflogwr, a oes gennych bolisi a darpariaethau ar waith i sicrhau bod eich sefydliad a'ch staff yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac yn unol â hynny, ai eich arfer yw peidio â gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol mewn perthynas â phenderfyniadau i recriwtio, dethol, talu, hyfforddi, trosglwyddo a hyrwyddo cyflogeion?

Ydyn / Nac Ydyn"

Gall cam dyfarnu'r broses gaffael hefyd gynnwys gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer gwerthuso.

Bydd y prosiectau hyn yn aildechrau unwaith y byddwn yn ddiogel yng ngham adfer y pandemig, ac mae adnoddau ar gael. Mae'r adolygiad o reoli contractau yn rhan o amcanion y tîm Caffael ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae Staff Caffael wedi ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb drwy system ddysgu i-Dev ar-lein y Cyngor, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Cwrs Ymwybyddiaeth Trawsrywiol ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Hefyd, mae Swyddogion Caffael fel arfer yn mynd i Gynhadledd Gaffael Flynyddol Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mentrau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes caffael moesegol a chynhwysol. Mae hyn wedi'i ohirio oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, rydym yn derbyn holl ddiweddariadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac rydym yn rhan o Rwydwaith Penaethiaid Caffael Awdurdodau Lleol Cymru. Un enghraifft o gefnogi cydraddoldeb oedd derbyn a lledaenu gwybodaeth am fasnau wyneb gweld drwodd er mwyn caniatáu darllen gwefusau.

Mae COVID-19 wedi cyflwyno heriau i'r Tîm Caffael Corfforaethol sydd wedi oedi cynlluniau ar gyfer:

- Lledaenu'r holiadur Caffael Moesegol i gadwyn gyflenwi'r Cyngor. Crëwyd yr holiadur hwn gyda'r bwriad o'i anfon ymlaen at ddetholiad ar hap o gyflenwyr

Cyngor dan contract i adnewyddu, atgoffa a hyrwyddo materion amrywiaeth a chynhwysiant yn ogystal â Chaethwasiaeth Fodern a'r gofynion iaith Gymraeg.

- Adolygu ac ymgynghori'n fewnol ar ganllawiau Rheoli Contractau'r Cyngor i hyrwyddo dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer materion cyffredinol yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb.

Bydd y prosiectau hyn yn ailddechrau unwaith y byddwn yn ddiogel yng ngham adfer y pandemig, ac mae adnoddau ar gael. Mae'r adolygiad o reoli contractau yn rhan o amcanion y Tîm Caffael ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 8.

Rydym yn falch o fod yn aelod o'r cynllun hwn. Mae'n cydnabod cyflogwyr sy'n helpu ymgeiswyr anabl i mewn i waith ac sy'n cefnogi cyflogeion pe baen nhw'n dioddef iechyd gwael yn ystod eu bywyd gwaith.

Dan y cynllun, rydym yn helpu pobl ag anableddau mewn sawl ffordd.

- **Cyfweliadau Hygyrch**

Rydym yn cael gwared ar rwystrau drwy gynnig pethau fel: parcio, arwyddwyr; Braille; mynediad i gadeiriau olwyn; system ddolen; neu ddehonglwr.

- **Ystyriaeth o flaen Llaw**

Rydym yn gwarantu cyfweliad i bobl ag anableddau ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion hanfodol y fanyleb person ar gyfer y swydd.

- **Lleoliad cyfweliad**

Rydym yn gallu trefnu ymweliad i leoliad y cyfweliad cyn y cyfweliad. Yna gallwn wneud addasiadau cyn y cyfweliad os bydd pobl angen hynny.

- **Datblygu galluoedd**

Rydym yn sicrhau bod cyfle i bobl ddatblygu a defnyddio eu galluoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy ein system Adolygiad Datblygiad Personol #maeamdanafi

- **Cefnogi cyflogeion**

Rydym yn cefnogi cyflogeion i aros mewn cyflogaeth pe baent yn cael anabledd. Rydym yn cynnig gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gwasanaeth cwnsela.

- **Codi ymwybyddiaeth**

Rydym yn trefnu i helpu staff i wybod mwy am anabledd. Rydym hefyd yn hysbysebu ein hymrwymiad ar ein Staffnet ac ar bosteri yn yr adeilad.

- **Adolygu'r cynllun**

Rydym yn gwirio'n rheolaidd sut mae'r cynllun yn cael ei redeg ac yn cynllunio gwelliannau. Rydym wedi gallu treialu cynllun profiad swydd ac wedi cynnig lleoliadau i nifer o ymgeiswyr gwaith. O ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun hwn, mae o leiaf un person wedi cael gwaith cyflogedig ac mae un arall yn derbyn hyfforddiant perthnasol i gefnogi eu cymhwyster proffesiynol a gwella eu rhagolygon cyflogaeth.

Pencampwr Amrywiaeth Stonewall

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Parhaom i fod yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i wella'r gweithle i bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod ni'n trin pobl yn deg pan fyddant yn gyflogeion neu'n ymgeisio am swyddi.

Mae ein gwaith wedi cynnwys sefydlu Rhwydwaith LHDT+ a Chynghreiriaid, a ail-lansiwyd ym mis Ionawr 2019 fel 'GLAM'. Mae aelodau'r rhwydwaith yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd sy'n gysylltiedig â thair ffrwd waith wahanol: effaith yn y gweithle; amlygrwydd ac ymwybyddiaeth; a chymdeithasol a chymorth. Mae gan bob grŵp nifer o amcanion i'w cyflawni i helpu i wneud y gweithle yn fwy cynhwysol i bobl

LHDT+. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygu polisïau, codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl LHDT+, a threfnu digwyddiadau cymdeithasol i rwydweithio a darparu cymorth i staff. Mae gennym dudalen we GLAM ar ein mewnwyd.

Mae gennym Hyrwyddwyr LHDT+ ar lefel Aelodau ac uwch reolwyr.

Rydym yn cymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Mae'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle yn darparu fframwaith i wella cynhwysiant lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn y gweithle. Gwnaethom wella ein sgôr gan 15 pwynt a'n safle ar y rhestr gan 19 o leoedd a llwyddo i gyrraedd lefel lle'r ydym yn un o'r 200 o gyflogwyr gorau'r DU.

Blwyddyn	Safle	Ein Sgôr
2020	196	86 (+15)
2019	215	71 (+24)
2018	293	47

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau i wella ei statws yn y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle. Mae hyn yn arbennig o drawiadol o ystyried bod nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan wedi cynyddu'n sylweddol. Er enghraifft, yn 2019 roedd 445 o sefydliadau ac yn 2020 aeth hyn i fyny i 502.

Mae ein staff yn cymryd rhan mewn arolwg staff i gefnogi cyflwyniad y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y Cyngor yn gwneud yn dda mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, mae 85% o gydweithwyr LHDT yn teimlo y gallant fod yn nhw eu hunain yn y gwaith ac mae'r un nifer yn hyderus yn rhoi gwybod am fwlio ac aflonyddu. Roedd hefyd yn galonogol gweld bod 79% o'r ymatebwyr yn gwybod bod rhwydwaith LHDT yn y Cyngor.

Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Elusen ydyw sy'n gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o hiliaeth a homoffobia. Mae'n defnyddio pêl-droedwyr a sêr chwaraeon eraill fel esiamplau i wneud hyn. Maen nhw'n cynnig gweithdai i bobl ifanc ynghylch hiliaeth ac yn cynnig sesiynau ffitrwydd difyr.

Yn 2019 – 2020, roedd 35 o weithdai ar draws 18 o ysgolion Bro Morgannwg, gan gynnwys:

- 14 ysgol gynradd;
- 3 ysgol uwchradd;

Fe wnaethant gyfarfod â 1259 o blant a phobl ifanc rhwng 5 ac 17 oed. Roedd o leiaf 20% o'r disgyblion a ymatebodd i arolwg wedi clywed neu weld hiliaeth yn eu hysgol yn ystod y 12 mis blaenorol. Mae hyn wedi dyblu ers y flwyddyn flaenorol pan mai dim ond 10% o ddisgyblion a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd eu bod wedi clywed neu weld hiliaeth yn eu hysgol yn ystod y 12 mis blaenorol.

Yn dilyn y gweithdai, roedd llai na 5% o ddisgyblion a dim athrawon wedi gweld unrhyw ddigwyddiadau hiliol, a dywedodd 65% o ddisgyblion eu bod wedi newid y ffordd y maent yn trin pobl eraill. Byddai mwy na 90% o athrawon yn argymhell y gweithdai i ysgol arall.

Ar ôl y gweithdai: roedd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o hiliaeth ymhlith disgyblion ysgolion cynradd wedi codi o 43% i 90% o radd da neu ardderchog; a hyder wrth sôn am hiliaeth wedi codi o 40% i 65% o radd da neu ardderchog.

Mewn arolwg dilynol dri mis ar ôl y gweithdai, cytunodd yr holl athrawon fod eu hyder wrth ddarparu addysg gwrth-hiliaeth wedi cynyddu, a dywedodd pob un bod y gweithdai yn ardderchog neu'n dda. Dyma rai o'r sylwadau a wnaethant pan ofynnwyd a fyddai'r gweithdy yn effeithio ar agweddau:

'Bydd. Mae'r disgyblion wedi dangos mwy o empathi a dealltwriaeth o'r mater.'

'Rwy'n credu ei fod wedi codi ymwybyddiaeth, yn enwedig y posibilrwydd o fod yn hiliol yn anfwriadol.'

'Rydym wedi parhau â'r pwnc yn fy nosbarth ac mae gan y myfyrwyr atgof da o'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn ystod y gweithdy.'

Fe wnaeth Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ymweld â Pharc Jenner ar gyfer digwyddiad clwb addysgol gyda'n clwb partner Barry Town United FC. Mynychodd pobl ifanc o Ysgol Gynradd Sant Cyres y stadiwm i gymryd rhan yn y digwyddiad clwb addysgol am y diwrnod.

Fe wnaeth y disgyblion ofyn rhai cwestiynau heriol ac aeddfed i'r chwaraewyr. Defnyddiodd y disgyblion y wybodaeth o'r digwyddiad i ysgrifennu erthygl unwaith yr oeddynt wedi dychwelyd i'r ysgol.

Fforwm Adrodd a System Adrodd Sipsiwn a Theithwyr

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Rydym yn parhau i weithio i nodi tir addas i ddatblygu safle Sipsiwn a Theithwyr parhaol arno. Mae hyn er mwyn i ni allu diwallu'r anghenion llety a ddangosir yn Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg 2016.

Yn y cyfamser, bu llawer o wersylloedd diawdurdod ym Mro Morgannwg dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cofnodi'r wybodaeth hon ar offeryn Casglu Ar-lein Cyfrif Carafanau Cymru Gyfan, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi cynnal asesiadau lles ym mhob gweryll o fewn pedair awr ar hugain o gael gwybod amdanynt. Lle mae pobl wedi gofyn am wasanaethau, er enghraifft, dŵr, gwaredu gwastraff a chyfleusterau toiled, rydym wedi'u darparu bob tro. Ers y pandemig, nid ydym wedi cymryd camau llys i gael gwared ar unrhyw wersylloedd. Buom yn aros nes bod y preswylwyr wedi penderfynu symud ymlaen eu hunain.

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (Cyngor ar Awtistiaeth i Oedolion gynt) Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 8.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn dîm amlasiantaeth o staff awdurdodau lleol ac iechyd sy'n cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n rhoi diagnosis a chymorth i oedolion sydd ag awtistiaeth. Dechreuodd y tîm yn 2012 a datblygodd i fod yn Wasanaeth Awtistiaeth Integredig yn 2017. Mae'r Tîm yn casglu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Daw'r gwasanaethau hyn gan awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau allanol, a sefydliadau'r trydydd sector. Yna mae'r tîm yn cefnogi cleientiaid i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn ac yn darparu cymorth wedi'i dargedu'n well os oes rhwystrau.

Mae'r gwaith hwn yn helpu cleientiaid i gael gafael ar gymorth neu gyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y gymuned ehangach. Heb y cymorth lefel isel hwn, efallai na fyddent wedi cael gwybod am wasanaethau cymorth neu'n teimlo nad oeddynt yn gallu manteisio arnynt.

Mae'r gwaith hwn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau ataliol sy'n diwallu gofynion Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Mae ymyriadau tymor byr, wedi'u targedu, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn annog pobl i fod yn annibynnol a pheidio â dod yn ddibynnol ar y tîm. Yn ogystal â chyfeirio a chefnogi i gael mynediad at gyfleoedd eraill mae'r tîm yn darparu ystod o grwpiau penodol. Dyma'r rhestr ar hyn o bryd:

- Gweithdy hyfforddi, 'Socialeyes' a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth sy'n helpu pobl awtistig i ddatblygu sgiliau cymdeithasol.
- Grwpiau trafod misol i oedolion yn y Barri a Chaerdydd.
- Grŵp ar gyfer oedolion sydd ag awtistiaeth i ddysgu sgiliau bywyd sylfaenol. Mae'r cwrs Sgiliau Bywyd hwn yn cynnwys maeth ac amrywiaeth o dasgau domestig ac mae'n cynnwys diogelwch ar-lein.
- Grŵp ôl-ddiagnostig lle mae oedolion yn dysgu am y cyflwr y maent wedi cael diagnosis ohono a sut y gallai effeithio ar eu bywydau.

- Cwrs "Get Cooking" sy'n cael ei gynnal gyda chymorth y tîm dieteteg i helpu oedolion awtistig i baratoi prydau iach cost-effeithiol.

Fforwm Strategaeth 50+ y Fro

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 5.

Mae'r Fforwm yn ymgyrchu dros anghenion pobl 50+ ym Mro Morgannwg. Mae ei haelodau mewn cyswllt â nifer o weithgorau lleol a chenedlaethol. Mae gan y Fforwm gyfansoddiad a grŵp etholedig o aelodau a elwir y Bwrdd Gweithredol. Y Bwrdd Gweithredol sy'n penderfynu sut mae'r Fforwm yn gweithio.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ar agor i bob aelod o'r Fforwm eu mynychu. Drwy fynychu, gall aelodau elwa o amrywiaeth o gyflwyniadau diddorol ar y gwasanaethau sydd ar gael. Mae gan aelodau hefyd gael y cyfle i fynegi eu barn ar ddatblygiadau a chynllunio gwasanaethau.

Mae pedwar grŵp tasg yn gweithio i sicrhau bod pobl dros hanner cant yn gallu cael mynediad at grŵp iechyd da, trafnidiaeth, datblygu'r we, a grŵp celf, crefft a hamdden. Maen nhw'n ceisio sicrhau y gall pobl ddysgu sgiliau newydd a gwneud pethau difyr sy'n addas i'w hanghenion. Mae'r Fforwm yn siarad â'r Cyngor, y Bwrdd Iechyd a sefydliadau gwirfoddol am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae'r Fforwm hefyd yn cynnal digwyddiadau bob blwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Fforwm ac mae wedi llofnodi Memorandwm Cydddealltwriaeth gyda'r Fforwm. Mae'r Cyngor yn rhoi grant bach i'r Fforwm ar gyfer treuliau aelodau ac i dalu am weithgareddau a digwyddiadau. Mae'r Fforwm yn defnyddio'r grant ar gyfer:

- cylchgrawn sydd â gwybodaeth ddefnyddiol i bobl hyn;
- gwefan;
- prynu offer fel argraffwyr a llechi ar gyfer busnes y Fforwm ac addysgu pobl hŷn sut i ddefnyddio cyfrifiaduron, llechi a ffonau clyfar; a
- threuliau allan o boced.

O bryd i'w gilydd, mae'r Cyngor a sefydliadau eraill am wybod beth mae pobl yn meddwl am eu cynlluniau. I helpu i ganfod beth sydd ei angen ar bobl, rydym yn cynllunio gwahanol weithgareddau gan gynnwys siarad â'r Fforwm.

Digwyddiadau'r Fforwm

Mae Age Cymru yn elusen i bobl hŷn. Sefydlodd ŵyl celfyddydau cenedlaethol blynyddol o'r enw Gwanwyn. Fe'i cynhelir ym mis Mai bob blwyddyn i bobl hŷn fwynhau'r celfyddydau. Mae'r Fforwm yn cymryd rhan weithredol yn y digwyddiad.

Mae'r Fforwm hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau i fynd i'r afael â cham-drin yr henoed, dathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, a hybu iechyd a lles.

Yn 2019/20 cynhaliodd y Fforwm ddigwyddiadau gan gynnwys eu digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Cam-drin Pobl Hŷn, bore coffi Nadoligaidd a bore coffi ar y cyd gyda Chyfeillion Parc Belle Vue a Thîm Byw'n lach y Cyngor.

Cyhoeddusrwydd

Pob blwyddyn, mae'r Fforwm yn cyhoeddi cylchgrawn o'r enw 'The Herald'. Mae'n dweud wrth bobl am waith y Fforwm a phethau o ddiddordeb i bobl dros 50 oed. Mae hefyd eitemau ar wasanaethau a gweithgareddau hamdden. Mae aelodau'r fforwm yn cynhyrchu ac yn dosbarthu'r cylchgrawn hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir gweld [rhifyn 2019 / 20 o'r 'Herald' yma](#).

Mae'r Fforwm hefyd wedi gwneud bwletin misol ar-lein yn ddiweddar, sy'n cynnwys cymysgedd o wybodaeth allweddol a diweddariadau gwasanaeth ynghyd â gweithgareddau hwyliog, ac fe'i hanfonir at aelodau'r Fforwm a'r boblogaeth 50+ ehangach yn y Fro.

Mae gan y Fforwm hefyd ei [wefan](#) ei hun. Mae'r wefan yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar bynciau fel: newyddion diweddaraf y Fforwm, ymgynghoriadau, gweithgareddau, budd-daliadau a sgamiau. Mae'r wefan yn caniatáu i ddefnyddwyr gofrestru ar gyfer cylchlythrau Fforwm rheolaidd. Mae gan y Fforwm gyfrifon Facebook a Twitter hefyd. Mae'r rhain oll wedi cael eu datblygu a'u diweddarau gan aelod o'r Fforwm.

Cefnogi Prosiectau Eraill

Mae aelodau o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn 'hyrwyddwyr digidol'. Mae hyn yn golygu eu bod yn addysgu pobl:

- am ddiogelwch ar-lein;
- sut i ddefnyddio gliniaduron, llechi a ffonau clyfar, gan gynnwys e-bost a'r rhyngrwyd.

Mae rhai aelodau o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn Hyrwyddwyr Dementia-Gyfeillgar. Maen nhw'n gwirfoddoli i wneud hyn. Maen nhw'n annog eraill i helpu pobl â dementia i fyw yn y gymuned. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth am beth yw dementia, sut beth yw cael dementia, a'r hyn y gallant ei wneud i helpu.

Mae dau aelod o'r Fforwm wedi bod ar gwrs LIFT Age Cymru. LIFT yw enw rhaglen gweithgareddau. Ei nod yw cael pobl hŷn i fod yn actif yn eu cymuned leol. Gall dau aelod o'r Fforwm bellach gynnig sesiynau ymarfer corff wythnosol. Gall ystod o grwpiau cymunedol fynychu, gan gynnwys pobl â dementia. Mae un o'r aelodau Fforwm hyn wedi creu pecyn cymorth i helpu pobl i osgoi disgyn. Mae'n cynnal sesiynau ar atal disgyn i grwpiau ar hyd a lled y Fro. Mae'r aelod hwn hefyd wedi cymhwyso i gynnig sesiynau Tai Chi Age Cymru i bobl hyn.

Mae rhai aelodau o'r Fforwm wedi mynychu hyfforddiant Cymorth Cyntaf, a ddarparwyd yn fwyaf diweddar gan y Groes Goch. Roedd hyn wedi'i deilwra i bobl hŷn ac roedd yn cynnwys hyfforddiant ar gwympiadau.

Mae aelodau'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn ymgynghorwyr ar gyfer Canolfan Wybodaeth Ysbyty Llandochau. Mae aelodau'r Fforwm sydd ar y grwp gweithredol wedi cael hyfforddiant i fod yn ymgynghorwyr iechyd a lles. Maen nhw'n gweithio 'i sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif' (MECC). Maen nhw'n hyrwyddo byw'n iach, gwasanaethau sgrinio a brechu. Maent hefyd yn gweithio fel mentoriaid ysgol uwchradd.

Gallwch ymuno â'r Fforwm os ydych dros bum deg ac yn byw, gweithio neu'n gwirfoddoli ym Mro Morgannwg.

Datblygu'r Celfyddydau

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Mae Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau yn cynnal rhaglen gynhwysol o weithgareddau cyfleoedd, arddangosfeydd a digwyddiadau. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chynnal yn yr Oriel Gelf Ganolog ac yn y gymuned ehangach ar gyfer ymwelwyr a thrigolion. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor a strategaeth gyfredol Diwylliant a'r Celfyddydau 'Bro Uchelgeisiol â Diwylliant Byw 2017-22' sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Chynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg, 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair'.

Mae deddfwriaeth gyfredol yn dylanwadu arni, gan gynnwys adroddiad Llywodraeth Cymru 2015 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 'Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru', wrth adlewyrchu dogfen Cyngor Celfyddydau Cymru, 'Ysbrydoli... Ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru'.

Mae gan y celfyddydau rôl gynyddol bwysig i'w chwarae o ran cefnogi cydraddoldeb o fewn sector y celfyddydau a phortffolios ehangach y Cyngor. Mae'r celfyddydau'n ffordd o ddod â chymunedau at ei gilydd. Mae cymryd rhan yn y celfyddydau yn arwain at welliant yn ansawdd bywyd, iechyd a lles pobl.

Mae'r celfyddydau'n hyrwyddo cydraddoldeb mewn cymaint o ffyrdd. Maent yn annog cydlyniant cymunedol, gan gyfrannu at a chreu cyfleoedd i integreiddio pobl o wahanol gefndiroedd a chymunedau ymylol. Drwy'r celfyddydau a diwylliant, mae ymgysylltu â'r gymuned yn dod â chreadigrwydd, dysgu, ysbrydoliaeth, rhannu, cysylltedd, cyfathrebu, iechyd, lles, mwynhad, datblygu sgiliau, addysg a gweithgarwch corfforol tra'n effeithio ar gydraddoldeb ac agendâu eraill y Cyngor.

Gall y celfyddydau hefyd gyfrannu at yr economi leol drwy gefnogi twristiaeth ddiwylliannol, gan alluogi trigolion ac ymwelwyr i fuddsoddi yn eu hardal leol. Maent hefyd yn annog gwariant eilaidd gan ymwelwyr a thrigolion yn y Fro.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau, unigolion a grwpiau sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae Cymdeithas Celfyddydau Menywod Cymru yn cefnogi ac yn hyrwyddo artistiaid benywaidd ledled Cymru. Mae Oriel Ganolog Celf yn gweithio gyda'r Gymdeithas i gynnal dathliad blynyddol o Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod (8 Mawrth) i ddathlu a chefnogi menywod yn yr arena gymdeithasol, economaidd ddiwylliannol a gwleidyddol eu llwyddiannau, eu cyflawniadau a'u hamgylchiadau. Mae'n dathlu artistiaid benywaidd yn creu celf gydag arddangosfa gelf agored. Mae'n cynnwys gwaith gan hobiauwr i weithwyr proffesiynol profiadol, i gyd yn dangos eu gwaith ochr yn ochr â'i gilydd i nodi'r digwyddiad rhyngwladol hwn. Mae'n cyflwyno gweithiau sy'n dal negeseuon am wahanol agweddau ar fywyd fel tlodi, rhyw, gobaith, cariad, galar, hapusrwydd, gwleidyddiaeth digwyddiadau'r byd, a chreadigrwydd pur.
- Cynhelir Diwrnod Cofio'r Holocaust yn flynyddol ar 28 Ionawr. Eleni roedd coffáu'r 75^{fed} pen-blwydd o ryddhau Auschwitz. I goffáu hyn, cynhaliwyd arddangosfa a ymchwiliwyd ac a grëwyd gan Hannelore Brenner o'r enw 'Merched Ystafell 28' am y deuddeg mil o ferched (plant) a basiodd drwy wersyll Theresienstadt ger Prague ar eu ffordd i Auschwitz. Dim ond ychydig gannoedd o ferched a oroesodd o'r nifer fawr a basiodd drwy'r gwersyll, i gael teuluoedd eu hunain yn y pen draw a dod yn famau a mamau-cu. Roedd agosatrwydd a chyfeillgarwch y merched o 'Ystafell 28' yn para am oes, dim ond ychydig sy'n o hyd yn fyw heddiw.
- Buom yn gweithio gyda'r Romany Cultural and Arts Company i ddangos tynged Roma a Sinti Ewrop; collodd tua 500,000 ohonynt eu bywydau yn ystod yr Holocaust, mae eu stori'n anhysbys i raddau helaeth heddiw gyda gwahaniaethu'n dal yn sylweddol uchel mewn perthynas â'r gymuned Sipsiwn, Roma, Teithwyr.
- Cymerodd cymysgedd o artistiaid ran yn Niwrnod Cofio'r Holocaust eleni:
 - Darluniodd gwaith yr artist Dilys Jackson ei phrofiad yn 'Greenham Common' ar ddechrau'r 1980au lle dechreuodd 70,000 o fenywod, y cyntaf yn tarddu o Gymru, brotest heddychlon yn erbyn mewnfario'r Taflegrau Trident i'r DU. Gadawsant eu cartrefi a'u teuluoedd i wersylla yn Greenham. Roeddent yn byw ar roddion gan y cyhoedd ac yn y pen draw wedi atal mewnfario'r taflegrau ar ôl ychydig flynyddoedd yn unig. Fodd bynnag, arhosodd y menywod ar y safle am bron i ugain mlynedd. Roedd y fenter gan y menywod hyn yn llwyddiant llwyr ac mae'n parhau i fod yn gyflawniad unigryw a hanesyddol heddiw.

- Dangosodd yr artist Judy Stephens ei gwaith 'Comfort Blankets – What to leave...'. Portreadodd y cwiltiau mawr mudo, newid gorfodol a sydyn, panig ac ofn pan dynnir eich rhwydi diogelwch, ac aeth i'r afael â'r mater a chwestiynu beth fyddech chi'n eu cymryd gyda chi? Roedd y gwaith yn rhoi ystyriaeth fawr i'r rhai sy'n dioddef anawsterau mawr a newid diangen yn eu bywydau.
- Disgrifiodd stori Artist Nina Lazarou yr anawsterau a gynrychiolwyd gan waith Judy Stephens a bod teulu Lazarou wedi dioddef mewn gwirionedd. Roedd neiniau a theidiau Lazarou wedi cael eu symud yn orfodol, ynghyd â 170,000 o Cypriaid Groegaid eraill a'u gorfodi i adael eu cartrefi, eu heiddo a'u bywydau, heb ddychwelyd byth i'w gwlad annwyl.
- Cynhaliwyd profiad rhithwir tri dimensiwn digidol gennym yn nodi taith goroeswr yr Holocaust Pinchas Gutter. Adroddodd Gutter ei brofiad trist o wersyll-garchar Majdanek lle collodd ei chwaer a'i rieni. Ei unig gof am ei chwaer oedd ei gwallt hir euraidd plethedig yn diflannu i dorf o bobl, sef darlun y poster sy'n hyrwyddo'r profiad rhithwir. Cafodd y gwylwr ei drochi mewn profiad a aeth â nhw i amser a lle arall, gan gyffwrdd â'u calonnau a'u henaid wrth iddynt deithio drwy, a phrofi, gwersyll-garchar yr Ail Ryfel Byd. Dangosodd y profiad rhithwir nifer o elfennau'r gwersylloedd gan gynnwys colled, newyn, ofn, unigrwydd, erledigaeth, arwahanu, gwahaniaethu a maddeuant. Profiad heb ei ail, dyma'r profiad rhithwir cyntaf o'i fath yn y byd. Fe'i crëwyd gan Gabro Arora ac Ari Paitz a'i gyd-gynhyrchu â Sefydliad USC Shoah (Holocaust), y sefydliad hanes gweledol ac addysg, a sefydlwyd gan Stephen Spielberg.
- Cynhaliwyd gweithdai ysgolion dan arweiniad yr artist gwrthdaro a rhyfel a'r athro, Nicola Tucker. Ymwelodd dosbarthiadau o dri deg o blant â'r oriel a dysgu am y gwaith a oedd yn cael ei arddangos yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithdai lluniadu ymarferol. Mewn grwpiau o bump, buont yn archwilio ffoi o'u cartref a glanio ar ynys. Gofynnwyd iddynt feddwl am yr hyn y byddent yn ei gymryd gyda hwy a sut y byddent yn goroesi ac yn ailadeiladu eu cartref ar ynys. Buont yn gweithio mewn timau i dynnu eu syniadau. Dysgon nhw am waith tîm a rhannu a datblygu syniadau, gan ddychmygu ynys yn greadigol a'r hyn y gallen nhw ei wneud i oroesi. Roeddent i gyd yn mwynhau'r gweithgaredd a oedd yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwahaniaeth, gwahanu, mudo, goroesi, arwahanu

a ffeithiau am yr Ail Ryfel Byd yr oeddent hefyd wedi bod yn dysgu amdano yn yr ysgol.

- Dros y blynyddoedd rydym wedi nodi erchyllterau'r Holocost a Hil-laddiadau eraill y byd fel Bosnia, Rwanda a Syria, Darfur gyda rhai o'r rhain ac eraill yn dal i fynd rhagddynt heddiw.
- Rydym yn ymgysylltu â Fforwm Hanner Cant a Mwy ar gyfer y Celfyddydau a Hamdden. Rydym wedi cefnogi'r grŵp hwn drwy drefnu cyflwyniadau a sgysiau gan yr oriel a chyflwyniadau a sgysiau gan yr oriel. Gan weithio'n agos gyda'r grŵp, rydym yn eu diweddarau'n rheolaidd am agoriadau, digwyddiadau celfyddydol a chyfleoedd y gallant fynychu a chymryd rhan ynddynt.
- Gan weithio gyda Rhwydwaith LHDT+, GLAM, gwnaethom nodi digwyddiad 'Stonewall 20' eleni ym mis Chwefror. Mae Stonewall yn sefydliad sy'n cefnogi unigolion i wneud gwahaniaeth i bobl LHDT yn y gwaith, gartref ac mewn cymunedau i herio homoffobia, biffobia a bwlio trawsffobig. Cynhaliwyd cyflwyniad gyda'r nos yn Oriol Gelf Ganolog, gyda chynulleidfia o tua deugain o bobl yn mynychu'r digwyddiad. Cafwyd sgysiau gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Neil Moore, Cyfarwyddwr Theatr lleol a'r actor Jordan Force, ac yna perfformiad theatrig byr o ran o ddrama a ysgrifennwyd gan Force. Hwn oedd y digwyddiad LHDT cyntaf a gynhaliwyd gyda'r GLAM ac rydym yn gobeithio cynnal mwy yn y dyfodol.
- Yn flynyddol rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro i gefnogi eu sioe ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r myfyrwyr, o bob cefndir, yn cynhyrchu amrywiaeth o waith ym maes datblygu gyrfa. Drwy waith yr artistiaid, maent yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â rhyw, iechyd a lles megis materion meddyliol a chorfforol a thwristiaeth ddiwylliannol ymhlith pynciau eraill. Mae'r arddangosfa flynyddol hon yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddangos eu gwaith mewn amgylchedd proffesiynol, gan gyfrannu at eu CV, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd gyrfa yn y dyfodol, fel artistiaid sydd ar y gweill.

Cynllun 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru

Rydym wedi parhau i bartneriaeth a hyrwyddo Theatr Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru, cynllun i Gymru gyfan. Mae'n helpu grwpiau o wirfoddolwyr ledled y Fro i ddod â'r celfyddydau perfformio i galon eu cymunedau. Gan weithio ar y cyd â Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau Bro Morgannwg, mae'r cynllun Noson Allan yn darparu mynediad i gynyrchiadau theatr o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer lleoliadau cymunedol bach a phob oedran. Gan weithredu gwarant yn erbyn colled ar gyfer y digwyddiadau, mae'n galluogi cymunedau i gael mynediad at gelfyddydau perfformiad o ansawdd uchel i bawb, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd incwm isel yn eu canolfan gymunedol leol, neuaddau pentref a lleoliadau theatr anhraddodiadol eraill.

Mae'r digwyddiadau fforddiadwy hyn a gefnogir yn cyfrannu at y celfyddydau lleol ac economïau ehangach sy'n darparu llwyfan i berfformwyr yng Nghymru a thu hwnt i gyrraedd cymunedau lleol. Gan fod cymunedau fel arfer yn trefnu'r digwyddiadau hyn, maent yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol, cydweithredu, casglwyr cymdogaethau a chymunedau lleol sy'n gwella sgiliau. Mae'r digwyddiadau'n targedu pobl ifanc ac yn eu galluogi i ddysgu sgiliau newydd mewn marchnata, gwerthu a threfnu digwyddiadau. Cânt eu harwain gan weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau sy'n gymwys yn y meysydd hyn i'w galluogi i gymryd perchnogaeth o'u digwyddiad ac ehangu eu dysgu a'u sgiliau gan gyfrannu at eu datblygiad gyrfa personol a phroffesiynol tra'n gwneud theatr yn hygyrch i bawb.

Buom yn gweithio gydag 'Iron Maidens', grŵp o gerflunwyr benywaidd yn defnyddio haearn bwrw fel eu cyfrwng cerfluniol. Enw'r arddangosfa, a gynhaliwyd yn oriel Gelf Ganolog, oedd Iron Maidens II: Cynnyrch Cymru. Ffurfiwyd y grŵp yn wreiddiol yn dilyn arddangosfa gydweithredol yn teithio fel 'Iron Maidens' rhwng 2009-14 gydag artistiaid o'r DU a'r Unol Daleithiau. Heddiw, mae 'Iron Maidens II' yn gerflunwyr o Gymru sy'n llawn cyffro gan brosesau naturiol a natur haearn bwrw. Maent yn arddangos eu gwaith gyda'r nod o ysbrydoli'r gwylwr i gymryd rhan yn harddwch y deunydd hwn ac annog eraill i ddefnyddio ac archwilio ei bosibiliadau niferus. Cafodd yr arddangosfa ei ffilmio a'i chynhyrchu yn y Gymraeg gan ymddangos ar 'Heno'.

Fel rhan o'r arddangosfa hon, dangoswyd gwaith gan 'Line & Form' - grŵp bach o artistiaid benywaidd. Dyma arddangosfa deithiol gan bedwar cerflunydd, y mae eu celfyddyd yn archwilio'r byd naturiol drwy eu deunyddiau, eu cerfio, eu bwrw a'u

gosodiadau, gan ddefnyddio llinell fel elfen annatod o'u hymarfer, gan ailadrodd llinell dros arwynebau gwastad neu gron i greu ffurf.

Mae Gwasanaeth y Celfyddydau yn cefnogi nifer o sefydliadau lleol sy'n helpu gydag iechyd a lles gan gynnwys Mind in the Vale a'r Barri sy'n Dementia Cyfeillgar. Mae'r Barri sy'n Dementia Cyfeillgar yn cefnogi ac yn cyfrannu at yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Dementia a chynnal digwyddiad yng Ngolau Caredig yn y Barri.

